Inspection of Youth Offending

Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

## Adroddiad ar waith troseddwyr ifanc yn:

# Wrecsam

ISBN: 978-1-84099-354-7

2010

## Rhagair

Cafodd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith troseddwyr ifanc yn Wrecsam ei gynnal fel rhan o'r Rhaglen o Arolygu Gwaith Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi archwilio sampl gynrychioliadol o achosion troseddwyr ifanc o'r ardal, ac wedi barnu pa mor aml y cafodd yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith eu cyflawni i safon ddigon uchel.

Gwnaethom farnu bod yr agweddau Diogelu ar y gwaith wedi cael eu cyflawni'n ddigon da 61% o'r amser. Gyda'r agweddau Gwarchod y Cyhoedd, cafodd gwaith i leihau Risg pob unigolyn o achosi Niwed i Eraill ei wneud yn ddigon da 53% o'r amser, a chafodd gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu ei wneud yn ddigon da 61% o'r amser. Rhoddir dadansoddiad mwy manwl o'n darganfyddiadau yng nghorff yr adroddiad hwn, a chrynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Gellir darllen y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein darganfyddiadau o'r rhannau o Loegr a arolygwyd hyd yma. Hyd yn hyn, y sgôr cyfartalog ar gyfer Gwaith Diogelu oedd 64%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 38-82%, y sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith Risg o Niwed oedd 60%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 36-85%, a'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith Tebygolrwydd o Aildroseddu oedd 66%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 50-82%.

"Ar y cyfan, rydym o'r farn bod y darganfyddiadau hyn fymryn yn is na'r cyfartalog. Er bod rhai gwelliannau pwysig wedi eu gwneud ers yr arolygiad diwethaf, roedd angen rhoi sylw pellach i feysydd gwaith eraill, er enghraifft ansawdd y cynlluniau a'r adolygiadau ar gyfer y Tebygolrwydd o Aildroseddu, Risg o Niwed a chyflwr agored i niwed. Roedd y model rheoli achosion eisoes wedi'i wella er mwyn rhoi sylw i rai o'r materion y gwnaethom eu nodi yn yr arolygiad hwn. Roedd staff yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i'r plant a'r bobl ifanc gan olygu bod Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam (y Gwasanaeth) mewn sefyllfa dda i wneud gwelliannau pellach drwy weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

*Andrew Bridges*
*Prif Arolygydd Prawf EM*

*Awst 2010*

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i'r holl staff o'r Gwasanaeth, i aelodau'r Bwrdd Rheoli ac i asiantaethau partner am eu cymorth gyda sicrhau bod yr arolygiad hwn wedi rhedeg yn llyfn.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Sandra Fieldhouse* |
| *Asesydd Ymarfer* | *Hannah Doughty* |
| *Asesydd CCI* | *Stephen Pearce* |
| *Staff Cymorth* | *Pete Clegg* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Rachel Dwyer, Alex Pentecost, Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Alan MacDonald* |

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 4 |
| Sgorio – a Thabl Crynodeb | 6 |
| Argymhellion | 7 |
| Y camau nesaf | 7 |
| Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth | 8 |
| Rhannu arferion da | 9 |
| 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU | 10 |
| 1.1. Risg o Niwed i eraill: | 10 |
| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu: | 11 |
| 1.3 Diogelu: | 13 |
| 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU | 15 |
| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau’r Risg o Niwed i eraill: | 15 |
| 2.2 Lleihau’r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | 16 |
| 2.3 Diogelu’r plentyn neu’r person ifanc: | 17 |
| 3. CANLYNIADAU | 19 |
| 3.1 Sicrhau canlyniadau: | 19 |
| 3.2 Cynnal canlyniadau: | 20 |
| Atodiad 1: Crynodeb | 21 |
| Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol | 22 |
| Atodiad 3a: Siartiau o ddata’r arolygiad | 23 |
| Atodiad 3b: Data’r arolygiad | 24 |
| Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a’r Cod Ymarfer | 24 |
| Atodiad 5: Rhestr Termau | 25 |

## Sgorio – a Thabl Crynodeb

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi sgoriau canran am bob un o’r ‘meini prawf ymarfer’ sy’n dangos pa mor aml i bob agwedd ar y gwaith gyrraedd lefel yr ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani. Yn yr arolygiadau hyn rydym yn canolbwyntio’n bennaf ar yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith ym mhob sampl o achosion.

Felly, roeddem yn gallu rhoi sgôr sy’n cynrychioli pa mor aml oedd yr agweddau *Gwarchod y Cyhoedd* a *Diogelu* ar yr achosion a aseswyd yn cyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani, a grynhoir yma.

Rydym hefyd yn rhoi prif 'sylw' wrth bob sgôr, i nodi a oeddem yn ystyried bod angen i'r agwedd yma ar y gwaith wella **YCHYDIG**, **RHYWFAINT**, **YN SYLWEDDOL** neu'n **ARW** yn y dyfodol agos.

| ***Sgôr Diogelu:*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Diogelu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae’r sgôr yn bwysig i’n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:*** ***61%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd: sgôr Risg o Niwed:*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Risg o Niwed* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae’r sgôr yn bwysig i’n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:*** ***53%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella’n SYLWEDDOL*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd – Sgôr Tebygolrwydd o Aildroseddu:*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Tebygolrwydd* o *Aildroseddu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. | |
| ***Sgôr:*** ***61%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

Rydym yn cynghori darllenwyr adroddiadau i beidio â cheisio cymharu sgoriau gwahanol ardaloedd yn rhy fanwl. Nid yw cymariaethau fel hyn o reidrwydd yn ddilys oherwydd bod maint y samplau'n amrywio fymryn, felly hefyd proffil yr achosion yn sampl pob ardal. Credwn ei bod yn well edrych ar y sgôr fel prif grynodeb o’r darganfyddiadau ym mhob ardal unigol, ac fel ffocws i wella ar waith yr ardal honno yn y dyfodol.

## Argymhellion (rhoddir y person sy'n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)

Mae angen gwneud newidiadau i sicrhau, mewn cyfran uwch o achosion:

(1) bod asesiad a chynllun amserol o ansawdd da, yn defnyddio ASSET, yn cael ei gwblhau ar ddechrau'r achos (Cadeirydd y Bwrdd Rheoli)

(2) bod asesiad amserol o ansawdd da yn cael ei gwblhau ar y dechrau er mwyn asesu statws agored i niwed yr unigolyn, a'r *Risg o Niwed*, fel y bo'n briodol i'r achos penodol (Rheolwr y Gwasanaeth)

(3) o ganlyniad i'r asesiad, bod cynlluniau'n benodol ynghylch beth fydd yn awr yn cael ei wneud i ddiogelu lles y plentyn neu'r person ifanc, i'w gwneud yn llai tebygol o aildroseddu, ac i leihau unrhyw *Risg o Niwed i eraill* sydd wedi cael ei adnabod (Rheolwr y Gwasanaeth)

(4) bod y cynllun gwaith gyda'r achos dan sylw'n cael ei adolygu'n gyson a'i gofnodi'n gywir yn ASSET mor aml ag y bo'n ofynnol gan y safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau troseddwyr ifanc ac yn dilyn newid sylweddol (Rheolwr y Gwasanaeth)

(5) bod tystiolaeth yn y ffeil o sicrhau ansawdd rheolaidd gan reolwyr, yn enwedig o benderfyniadau sgrinio, fel y bo'n briodol i'r achos penodol (Rheolwr y Gwasanaeth).

Hefyd:

(6) bod gwybodaeth o gartrefi plant yn cael ei ryportio'n gyson a chywir i'r Gwasanaeth a bod camau priodol yn cael eu cymryd i gefnogi'r gwaith o reoli'r *Risg o Niwed* a Diogelu (Cadeirydd y Bwrdd Rheoli).

(7) bod diogelwch dioddefwyr yn derbyn blaenoriaeth uwch drwy gydol y gwaith o reoli'r achos (Rheolwr y Gwasanaeth).

## Y camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwelliannau i ateb yr argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM bedair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn ar yr arolygiad. Ar ôl ei ddrafftio'n derfynol, bydd y cynllun yn cael ei anfon ymlaen at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro ei weithrediad.

## Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth

### Plant a phobl ifanc

Llenwodd bedwar ar bymtheg o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad hwn.

- Dywedodd bob un o'r plant a'r bobl ifanc eu bod yn gwybod pam y cawsant eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Teimlai bawb heblaw am un eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth, gan ddweud bod y staff wedi ei gwneud yn hawdd iddynt ddeall pa gymorth oedd ar gael iddynt.
- Dywedodd dau ar bymtheg fod gan staff ddiddordeb yn eu helpu a dywedodd bob un a atebodd y cwestiwn eu bod yn teimlo eu bod wedi gwrando arnynt. Roedd y rhan fwyaf wedi derbyn cymorth i ddeall eu troseddau, y penderfyniadau a'r defnydd o alcohol neu gyffuriau.
- Roedd pymtheg o'r plant neu bobl ifanc wedi llenwi'r ffurflen hunan-asesu *Beth ydych CHI'N ei feddwl?* ar ryw bwynt yn ystod eu gorchymyn. Ni allai'r lleill gofio a oeddent wedi'i llenwi neu beidio.
- Dywedodd bob un eu bod yn gwybod beth oedd contract neu gynllun ymyrryd ac roedd pob un heblaw am ddau yn cofio cael copi. Gallai bob un o'r rhai a atebodd y cwestiwn gofio bod y cynllun wedi cael ei adolygu.
- Dywedodd ddeg fod pethau wedi gwella o ganlyniad i'r gwaith gyda'r Gwasanaeth a theimlai bymtheg eu bod yn llai tebygol o aildroseddu.

### Dioddefwyr

Cafodd un-ar-ddeg o holiaduron eu llenwi gan ddioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc.

- Dywedodd bob un a oedd wedi ymateb eu bod wedi cael gwybod pa wasanaethau oedd ar gael a bod staff wedi ystyried eu hanghenion unigol. Roedd un person anabl yn canmol y ffordd oedd y staff wedi gweithio gyda nhw.
- Dywedodd bob un eu bod wedi cael cyfle i siarad am unrhyw ofidiau oedd ganddynt am y trosedd neu am y plentyn neu'r person ifanc oedd wedi'i gyflawni. Dywedodd chwech o'r naw eu bod wedi elwa o'r gwaith a wnaed gan y plentyn neu'r person ifanc.
- Nid oedd pedwar o'r dioddefwyr yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth. Teimlai un yn ofnus oherwydd bod y plentyn neu'r person ifanc wedi dychwelyd i weithle'r dioddefwr a bod y Gwasanaeth wedi dweud na allent helpu. Teimlai un arall nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi gweithio ddigon i wneud iawn am y drwg a wnaeth.

## Rhannu arferion da

Isod rhoddir enghreifftiau o arferion da a welsom yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

| | |
|---|---|
| **Asesu a Chynllunio Dedfrydau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 2.1** | Roedd Gwasanaeth Wrecsam wedi treialu defnyddio offeryn asesu trafferthion cyfathrebu, lleferydd ac iaith. Dangosai'r canlyniadau fod gan bob un heblaw am un o'r 21 o blant neu bobl ifanc drafferthion iaith, lleferydd neu gyfathrebu difrifol neu sylweddol.<br><br>Roedd un plentyn neu berson ifanc wedi methu ag ymroi i'w addysg, roedd ganddo Ddatganiad o Anghenion Addysgol ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Dangosai'r asesiad bod yn well ganddo arddull ddysgu neilltuol ac, o ganlyniad, gallai'r rheolwr achos deilwrio'r ffordd yr oedd yn gweithio gyda fo. Roedd y gwaith i gyd yn cael ei ddarparu ar sail un-i-un yn defnyddio dulliau ymarferol iawn. |

| | |
|---|---|
| **Darparu ac Adolygu Ymyriadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 2.2** | Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ganolfan achrededig ar gyfer gwirio cymwysterau OCN Lefel 1. Roedd un plentyn neu berson ifanc wedi ei gofrestru ar gwrs Cyflwyniad i Chwaraeon a Hamdden. Roedd wedi cwblhau dros 30 awr o waith yn y gampfa gan ennill cymhwyster OCN. Roedd magu mwy o hyder ac ennill y cymhwyster wedi ei annog i gofrestru ar gyfer coleg gan ddechrau ym mis Medi. Roedd naw o blant a phobl ifanc hefyd wedi ennill dyfarniadau OCN o ganlyniad i brosiectau celfyddydau haf. |

| | |
|---|---|
| **Canlyniadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 3.2** | Roedd un plentyn neu berson ifanc wedi cwblhau ei oriau gwneud iawn mewn canolfan antur awyr agored yn Wrecsam. Roedd staff y ganolfan mor hapus gyda'i waith fel iddynt ofyn iddo ddod yn wirfoddolwr ar ddiwedd ei orchymyn, gan ei helpu i greu ei curriculum vitae ai gwella ei siawns o gael gwaith yn y dyfodol. |

# 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU

| 1.1. Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o RoN yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, yn ystyried materion dioddefwyr ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli'r RoN.* | |
| ***Sgôr:***<br>***63%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd sgrinio am RoND yn defnyddio ASSET wedi'i wneud ym mhob achos heblaw am un (97%). Roedd wedi'i gwblhau ar amser mewn 87% o achosion.

(2) Cawsom 20 o achosion lle oedd angen dadansoddiad llawn o'r RoND. Roedd wedi'i gwblhau ac ar amser mewn 75% o'r achosion hyn. Roedd hyn yn welliant mawr ar ddarganfyddiad yr arolygiad diwethaf yn 2005 lle cafodd yr asesiad o RoND ei gwblhau mewn dim ond 28% o achosion perthnasol.

(3) Roedd y dadansoddiad o RoND wedi cael ei anfon ymlaen at y sefydliad dan glo o fewn 24 awr i'r ddedfryd ym mhob achos perthnasol.

(4) Roedd manylion asesu a rheoli'r RoND wedi cael eu cyfathrebu'n briodol i'r holl staff a'r asiantaethau perthnasol mewn 72% o achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Yn ein barn ni, roedd gormod o'r sgriniadau RoND yn anghywir (42%). Roedd y sgrinio'n tueddu i ganolbwyntio ar yr euogfarn presennol, gan ddiystyru euogfarnau blaenorol ac ymddygiad perthnasol arall.

(2) Lle oedd dosbarthiad RoND clir, roedd yn gywir mewn 72% o achosion. Yn y deg achos a farnwyd i fod yn anghywir, roeddem yn teimlo bod y dosbarthiad yn rhy isel.

(3) Roedd y dadansoddiad o RoND o ansawdd boddhaol mewn ychydig llai na hanner (47%) yr achosion. Roedd gormod ohonynt wedi methu ag ystyried ymddygiad perthnasol blaenorol neu'r risg i ddioddefwyr. Roedd gormod o ddibynnu ar euogfarnau presennol, ac roedd hyn yn rhy aml yn golygu nad oedd gan staff ddarlun llawn o botensial y plentyn neu'r person ifanc i achosi niwed difrifol i eraill.

(4) Nid oedd y dadansoddiad o RoND yn gwneud digon o ddefnydd o'r holl wybodaeth oedd ar gael, gan gynnwys asesiadau blaenorol a barn dioddefwyr, mewn 43% o achosion perthnasol.

(5) Roedd Cynllun Rheoli Risg yn ei le ac wedi'i gwblhau ar amser mewn 60% o'r achosion perthnasol. Dim ond un o bob pump o'r rhain oedd o ansawdd boddhaol. Roedd y Cynlluniau Rheoli Risg yn tueddu i fethu materion diogelwch dioddefwyr ac nid oeddent yn benodol ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r gweithwyr. Roedd rhai yn ddisgrifiadol iawn, gan ailadrodd gwybodaeth o'r dadansoddiad yn lle canolbwyntio ar gynllunio ac adnabod gweithredu pendant i sicrhau bod ymddygiad y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei reoli'n foddhaol yn fewnol ac allanol. Roedd diweddaru cynllun blaenorol, yn lle cwblhau un newydd, hefyd yn amharu ar yr ansawdd. Roedd ymyriadau cyfyngu pwysig, er enghraifft cyrffyw neu archwiliadau cyson gyda'r heddlu, yn aml wedi eu gadael allan.

(6) Yn ein barn ni, roedd rheolwyr yn goruchwylio'r asesiadau o *RoN* yn effeithiol mewn dim ond 36% o achosion ac mewn dim ond pedwar o'r 15 Cynllun Rheoli Risg. Roedd gormod o gynlluniau o ansawdd anfoddhaol wedi cael eu cydlofnodi.

(7) Mewn achosion a ddosbarthwyd fel rhai RoND isel, yn defnyddio canllawiau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o asesu a chynllunio i reoli'r materion *RoN.* Roedd yr angen i gynllunio a rheoli'r materion hyn wedi cael ei nodi mewn 38% o achosion ac wedi'i weithredu mewn traean. Roedd staff yn canolbwyntio ar RoND ac yn esgeuluso pwysigrwydd asesu a chynllunio ar gyfer pob agwedd ar *RoN.*

(8) Dylid hysbysu pob achos cymwys i MAPPA a, lle bo angen, atgyfeirio at gyfarfod Lefel 2. Gwelsom dystiolaeth o hysbysu neu atgyfeirio mewn un allan o dri o'r achosion. Mewn un achos, ni atgyfeiriwyd yr achos oherwydd bod staff wedi meddwl yn anghywir nad oedd hyn yn bosibl os oedd yr achos yn tarddu o'r tu allan i Ogledd Cymru.

| **1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o ToA yn gynhwysfawr, cywir ac amserol ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i leihau'r ToA.* | |
| ***Sgôr:***<br>***54%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

## *Cryfderau:*

(1) Roedd asesiad cychwynnol o'r ffactorau a oedd yn gysylltiedig â'r troseddau wedi'i gwblhau ym mhob achos heblaw am ddau o'r rhai a arolygwyd. Roedd 71% wedi eu cwblhau o fewn yr amser angenrheidiol ac roedd mwy na thri chwarter o ansawdd boddhaol.

(2) Roedd yr asesiad cychwynnol o ToA wedi'i hysbysu gan gyswllt gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant mewn 76% o achosion perthnasol.

(3) Roedd yr asesiad cychwynnol wedi cael ei anfon at y sefydliad dan glo ym mhob achos perthnasol.

(4) Roedd gan bob un o'r achosion heblaw am dri chynllun ymyrryd ac roedd 71% wedi eu cwblhau ar amser. Roedd y mwyafrif llethol (86%) yn adlewyrchu pwrpas y ddedfryd. Roedd bron i dri chwarter (71%) yn cynnwys gwaith Diogelu priodol.

(5) Roedd yr asesiad cychwynnol o'r ToA wedi cael ei adolygu ar adegau priodol mewn 78% o achosion. Roedd y cynllun ymyrryd wedi cael ei adolygu mewn 82%.

(6) Roedd y sefydliad dan glo wedi cyfrannu at y broses o gynllunio'r ymyriad ym mhob achos perthnasol heblaw am un.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Mewn pump allan o'r naw asesiad cychwynnol a oedd o ansawdd anfoddhaol, roedd y system cofnodi achosion wedi'i defnyddio'n anghywir. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr asesiad cychwynnol ar gael i'w arolygu.

(2) Roedd dau o bob tri o'r plant a'r bobl ifanc, a 61% o'r rhieni / gofalwyr, wedi cael eu cynnwys yn weithredol yn yr asesiad cychwynnol. Roedd canran fymryn yn is (58%) o blant a phobl ifanc a 38% o rieni / gofalwyr wedi cael eu cynnwys yn weithredol yn y broses gynllunio. Roedd ychydig dros draean (39%) o blant a phobl ifanc wedi llenwi ffurflen *Beth ydych CHI'N ei feddwl?* ar ddechrau'r gorchymyn.

(3) Roedd arddull ddysgu'r plentyn neu'r person ifanc wedi cael ei asesu yn chwarter yr achosion. Roedd offeryn asesu arddull ddysgu addawol iawn wedi cael ei ddatblygu, ond nid oedd yn llawn weithredol dros y cyfnod y dewiswyd y sampl arolygu ohono. Gwelsom dystiolaeth o'i ddefnydd mewn achosion mwy diweddar.

(4) Nid oedd yr asesiad cychwynnol wedi cael ei hysbysu gan yr holl asiantaethau oedd ar gael. Mewn 55% o achosion, roeddem yn teimlo y dylid bod wedi defnyddio manylion gan y gwasanaethau ETE i oleuo'r asesiad cychwynnol. Dylid bod wedi defnyddio gwybodaeth gan y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau mewn 62% o achosion.

(5) Er bod y sefydliad dan glo fel rheol yn cyfrannu at y broses gynllunio gychwynnol, nid oedd asiantaethau eraill bob amser wedi cael eu cynnwys. Roedd y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant wedi cael eu cynnwys yn weithredol mewn 29% o achosion perthnasol; y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau mewn 45%; a'r gwasanaethau ETE mewn 40% o achosion.

(6) Roedd y tîm ymyriadau'n gyfrifol am ddylunio'r cynllun ar sail yr asesiad cychwynnol a oedd wedi'i gwblhau gan y tîm asesu a llys. Roedd ychydig o dan hanner y cynlluniau wedi gosod amcanion perthnasol. Roedd gormod wedi methu â chynnwys amcanion i ddelio â rhai o'r ffactorau pwysig a oedd yn gysylltiedig â'r troseddu a oedd wedi cael eu nodi yn yr asesiad cychwynnol.

(7) Nid oedd y cynllun rheoli risg wedi cael ei integreiddio o fewn y cynllun ymyrryd mewn 70% o achosion. Roedd hyn yn adlewyrchu diffyg sylw at faterion *RoN* a chynllunio sut i ddelio â'r rhain. Nid oedd digon o flaenoriaethu a dilyniant amcanion yn ôl yr anghenion *RoN* a'r anghenion a oedd yn gysylltiedig â'r trosedd. Roedd dau o bob tri o'r cynlluniau wedi methu â rhoi siâp clir i'r gorchymyn, a dim ond 14% wedi gosod amserlen glir.

| 1.3 Diogelu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o anghenion Diogelu yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli Diogelu ac i leihau statws agored i niwed.* | |
| ***Sgôr:***<br>***58%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd sgrinio am statws agored i niwed yn defnyddio ASSET wedi'i wneud mewn 89% o achosion ac roedd 76% ar amser.

(2) Roedd y Cynllun Rheoli Agored i Niwed yn cyfrannu at ac yn goleuo'r ymyriadau yn nhri chwarter yr achosion perthnasol. Gwelsom dystiolaeth o gyswllt gweithredol gyda'r sefydliad dan glo ynghylch materion Diogelu parhaus mewn 83% o'r achosion perthnasol. Mewn un achos, roedd gweithiwr y Gwasanaeth wedi gweithio'n galed i gynnwys y gweithiwr CAMHS pan oedd y sefydliad wedi methu â dod yn ôl ati ynghylch ei phryderon agored i niwed.

(3) Roedd cyfraniad wedi'i wneud drwy'r CAF ac asesiadau a chynlluniau eraill i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc mewn un achos lle oedd statws agored i niwed yn fater taer.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Cafodd sgrinio am gyflwr agored i niwed yn defnyddio ASSET ei gwblhau'n foddhaol mewn 34% o'r achosion. Gwelsom dystiolaeth o ddiffyg ystyried anghenion Diogelu wrth sgrinio, er enghraifft goryfed alcohol neu wahardd o'r ysgol. Roedd anghenion diogelu wedi cael eu hadolygu fel y bo'n briodol mewn 67% o achosion.

(2) Roedd Cynllun Rheoli Agored i Niwed wedi'i gwblhau mewn 12 allan o'r 25 (48%) achos lle gwnaethom farnu bod angen un. Roedd un-ar-ddeg wedi cael eu cwblhau ar amser ac roedd saith o ansawdd boddhaol. Y prif wendidau oedd diffyg cynllunio penodol a rolau a chyfrifoldebau aneglur ar gyfer yr holl staff perthnasol. Mewn dau achos, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y Cynllun Rheoli Agored i Niwed yn cyfrannu at gynlluniau eraill, er enghraifft Plant sy'n Derbyn Gofal.

(3) Roedd y sefydliad dan glo wedi cael gwybod am faterion Diogelu mewn pedwar (57%) o'r achosion dan glo perthnasol.

(4) Roedd copïau o gynlluniau eraill, fel gofal, llwybr neu gwarchod, ar y ffeil mewn 42% o'r achosion.

(5) Mewn 40% o achosion, roedd tystiolaeth bod rheolwyr wedi goruchwylio'r

asesiad agored i niwed yn effeithiol.

## Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Asesu a Chynllunio Dedfrydau: 56%

### SYLWADAU ar Asesu a Chynllunio Dedfrydau ar y cyfan:

Cafodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ei ailstrwythuro ym Mai 2008 yn ddau dîm, un yn arbenigo mewn asesiadau ac adroddiadau i'r llys, a'r llall yn gosod y cynllun gwaith ac yn darparu ymyriadau. Nod y model newydd oedd hyrwyddo cydweithio a datblygu sgiliau arbenigol. Er bod yr asesiadau cychwynnol, ar y cyfan, o ansawdd boddhaol, roedd angen gwella'n sylweddol ar y cynlluniau ymyrryd. Teimlai rhai staff fod gwahanu'r gwaith o gwblhau'r cynllun o'r person a oedd wedi gwneud yr asesiad cychwynnol yn hindrans. Er enghraifft, roedd yn anodd cael y plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan o ystyried yr amser byr yn dilyn trosglwyddo'r achos o'r tîm asesu a llys i'r tîm ymyriadau. Roedd hyn yn golygu bod amser yn brin i gyfarfod â'r plentyn neu'r person ifanc, heb sôn am eu cael i gyfrannu'n weithredol at ddatblygu'r cynllun.

Nid oedd y syniad bod un tîm yn 'cau' yr achos pan fydd yn ei basio i'r tîm arall yn un buddiol. Er enghraifft, mewn un achos, ni chafodd gwybodaeth am ymddygiad rhywiol ei hymchwilio oherwydd i'r achos gael ei drosglwyddo i'r tîm ymyriadau a'r asesydd ddim mwyach yn cyfrannu. Roedd y parhad yn cael ei golli a gwybodaeth a oedd efallai'n bwysig wedi'i methu. Roedd y Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau gyda gweithredu'r model rheoli achosion ac wedi gwella'r model yn ddiweddar i sicrhau ei fod yn gweithio fel y dylai.

## 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU

| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Cymerwyd pob cam rhesymol i warchod y cyhoedd drwy leihau Risg y plentyn neu'r person ifanc o achosi Niwed i Eraill* | |
| ***Sgôr:*** ***47%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

### *Cryfder:*

(1) Roedd adnoddau priodol o ran y staff a oedd yn rheoli'r achos wedi cael eu dyrannu yn unol â'r *RoN* mewn 84% o achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd y *RoN* wedi cael ei adolygu'n unol â'r safon genedlaethol mewn 62% o achosion. Er bod niwed sylweddol yn y *RoN* wedi digwydd fel bod angen adolygiad mewn 18 achos, dim ond mewn saith y cafodd ei gwblhau (39%). Lle oedd newidiadau mewn ffactorau *RoN* wedi digwydd, roeddent wedi cael eu rhagweld lle oedd hynny'n bosibl mewn llai na thraean yr achosion, ac wedi cael eu nodi'n ddiymdroi a chamau priodol wedi eu cymryd mewn 35% o achosion.

(2) Roedd rheolwyr achos a staff perthnasol eraill yn cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd aml-asiantaeth mewn 67% o'r achosion dan glo ac mewn 69% o'r achosion yn y gymuned.

(3) Roedd ymweliadau cartref i bwrpas wedi cael eu gwneud drwy gydol y ddedfryd yn unol â lefel y *RoN* a oedd yn cael ei chyflwyno gan y plentyn neu'r person ifanc mewn 60% o achosion. Lle oedd yna faterion Diogelu, y ffigur cyfatebol oedd 68%.

(4) Gwelsom fawr ddim tystiolaeth wedi'i gofnodi o asesu diogelwch dioddefwyr gan farnu felly na roddwyd digon o flaenoriaeth i'r maes gwaith pwysig hwn ym mhob un heblaw am ddau o'r achosion perthnasol. Nid oedd yr asesiadau o *RoN* a'r Cynlluniau Rheoli Risg yn rhoi digon o sylw i faterion diogelwch a'r camau penodol oedd angen eu cymryd i warchod dioddefwyr presennol neu bosibl.

(5) Roedd ymyriadau penodol i reoli'r *RoN* yn y gymuned wedi cael eu darparu fel a gynlluniwyd mewn 57% o achosion ac wedi cael eu hadolygu ar ôl newid sylweddol mewn 18%. Ar gyfer y rhai dan glo, roedd ymyriadau wedi cael eu darparu mewn 38% ac wedi cael eu hadolygu yn dilyn newid sylweddol mewn traean o'r achosion.

| **2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:*** *Mae'r rheolwr achos yn cydgysylltu ac yn hwyluso'r gwaith systematig o ddarparu holl elfennau'r cynllun ymyrryd.* | |
| ***Sgôr:*** ***71%*** | ***Sylw:*** ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd adnoddau priodol wedi cael eu dyrannu'n unol â lefel y ToA a aseswyd drwy gydol y ddedfryd mewn 87% o achosion. Mewn dau achos, gwelsom fylchau yn y gwasanaethau a oedd ar gael i ddelio â chamddefnyddio sylweddau. Mewn tri achos, gwelsom ddiffyg adnoddau i ddelio â meddwl ac ymddygiad. Roedd yr olaf yn broblem gydag achosion dan glo lle oedd ychydig iawn o waith ymddygiad troseddol wedi'i wneud.

(2) Roedd ymyriadau wedi eu darparu yn y gymuned yn unol â'r cynllun ymyrryd mewn 70% o achosion; roeddent o ansawdd da mewn 78%; wedi eu dyfeisio i leihau'r ToA mewn 86%; ac yn unol â'r statws PPO mewn chwech allan o'r wyth achos perthnasol.

(3) Roedd staff y Gwasanaeth wedi cyfrannu'n briodol at adolygu'r ymyriadau dan glo mewn wyth allan o ddeg achos perthnasol.

(4) Roedd rheolwyr achos wedi ysgogi a chefnogi plant a phobl ifanc drwy gydol eu dedfryd ym mhob un o'r achosion dan glo, ac mewn 97% o'r rhai yn y gymuned. Roeddent wedi atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol ym mhob un o'r achosion dan glo ac mewn 92% o'r rhai yn y gymuned.

(5) Roedd rhieni / gofalwyr wedi cael eu cynnwys yn weithredol drwy gydol y ddedfryd mewn 86% o'r achosion dan glo perthnasol, ac mewn 77% o'r rhai yn y gymuned.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Roedd ymyriadau cymunedol wedi cael eu darparu mewn dilyniant priodol mewn 37% o achosion ac wedi cael eu hadolygu'n briodol mewn 56%. Roeddent yn briodol i arddull ddysgu'r plentyn neu'r person ifanc mewn 38% ac yn ymgorffori'r holl faterion amrywiaeth mewn 45%.

| 2.3 Diogelu’r plentyn neu’r person ifanc: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i ddiogelu a lleihau statws agored i niwed y plentyn neu'r person ifanc.* | |
| ***Sgôr:***<br>***67%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Yn nhri chwarter yr achosion dan glo perthnasol ac mewn 77% o’r achosion cymunedol, roedd atgyfeirio angenrheidiol i sicrhau Diogelu wedi’i wneud at asiantaethau perthnasol eraill. Roedd gweithiwr y Gwasanaeth ac asiantaethau eraill, yn enwedig ETE a chamddefnyddio sylweddau, wedi cydweithio i hyrwyddo Diogelu a lles y plentyn neu’r person ifanc dan glo ac yn y gymuned.

(2) Gwelsom ymyriadau penodol i hyrwyddo Diogelu mewn 81% o’r achosion yn y gymuned. Roedd ymyriadau yn cynnwys ffactorau a oedd wedi eu nodi yn y Cynllun Rheoli Agored i Niwed yn nhri chwarter yr achosion.

(3) Roedd yr holl staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi cefnogi a hybu lles y plant a’r bobl ifanc drwy gydol y ddedfryd mewn 80% o’r achosion dan glo ac mewn 83% o’r achosion cymunedol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Mewn pedwar o’r achosion cymunedol, dylid fod wedi gwneud mwy i roi sylw i bryderon Diogelu taer ynghylch y plentyn neu’r person ifanc. Roedd dau o’r plant a’r bobl ifanc hyn yn byw mewn cartrefi plant yn lleol. Mewn dau achos arall, dylid fod wedi gwneud mwy i ddiogelu a gwarchod plant a phobl ifanc eraill. Roedd un o’r rhain yn byw mewn cartref plant yn lleol. Roedd ein pryderon yn ymwneud â chyfnewid gwybodaeth gwael gyda’r Gwasanaeth gan arwain at oedi gyda chynllunio a gweithredu angenrheidiol.

(2) Mewn deg achos, yn ein barn ni wnaeth y gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant gydweithio digon gyda'r Gwasanaeth i hybu Diogelu a lles y plentyn neu'r person ifanc.

(3) Gwelsom ymyriadau penodol i hyrwyddo Diogelu mewn pump allan o’r wyth achos dan glo, cawsant eu darparu yn hanner yr achosion hyn, a'u hadolygu mewn traean. Mewn achosion yn y gymuned, roedd ymyriadau i hyrwyddo Diogelu wedi cael eu darparu yn hanner yr achosion a'u hadolygu mewn 57%.

(4) Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr o anghenion Diogelu ac agored i niwed wedi'i wneud yn effeithiol mewn dau allan o bump o’r achosion lle roedd y plentyn neu’r person ifanc dan glo ac mewn 55% o rai yn y gymuned.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith o Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau: 63%**

**SYLWADAU ar Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau ar y cyfan:**

Roedd gennym bryderon sylweddol ynghylch y diffyg sylw i'r gwaith o reoli'r *RoN* a'r cyfnewid gwybodaeth gwael ynghylch Diogelu rhwng rhai cartrefi plant lleol a'r Gwasanaeth. Mewn dau achos, roeddem yn bryderus ynghylch pa mor addas oedd y lleoliad i reoli anghenion cymhleth y plant a'r bobl ifanc.

Roedd asesiadau cychwynnol ac adolygiadau wedi cael eu cyflawni gan staff yn y tîm asesu a llys, ond tan yn eithaf diweddar roedd staff gwahanol yn cael eu dyrannu bob tro oedd angen gwneud asesiad neu adolygiad. Roedd hyn yn cael effaith andwyol ar sawl peth, er enghraifft ar y parhad i'r plentyn neu'r person ifanc, ar ansawdd yr adolygiadau a hefyd yn lleihau manteision posibl y cydweithio. Roedd y model rheoli achosion wedi cael ei diwygio'n ddiweddar i gywiro'r broblem hon.

## 3. CANLYNIADAU

| 3.1 Sicrhau canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu sicrhau yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***56%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

### *Cryfder:*

(1) Cymerwyd pob cam rhesymol i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel mewn 70% o achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Gwelsom dystiolaeth o leihad yn amledd y troseddu mewn 48% o achosion a lleihad yn nifrifoldeb y troseddu mewn 46%.

(2) Roedd y *RoN* yn cael ei rheoli'n effeithiol mewn 53% o achosion perthnasol. Gwelsom leihad yn yr anghenion Diogelu mewn 38%.

(3) Roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydymffurfio â gofynion y ddedfryd mewn 39% o'r achosion; mewn 36% o'r achosion hynny lle na wnaethant gydymffurfio, ni chymerwyd camau gorfodi digonol.

(4) Roedd y Gwasanaeth wedi cofnodi gwelliant cyffredinol yn y ffactorau a gyfrannodd at y troseddu mewn 46% o achosion. Nid oedd ASSET bob amser yn cael ei adolygu ar ddiwedd gorchymyn.

| 3.2 Cynnal canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu cynnal yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***58%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

### *Cryfder:*

(1) Rhoddwyd sylw llawn i faterion integreiddio yn y gymuned mewn 69% o'r achosion cymunedol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd sylw llawn wedi cael ei roi i faterion integreiddio yn y gymuned mewn 44% o'r achosion dan glo.

(2) Cymerwyd camau neu roedd cynlluniau yn eu lle i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cynnal mewn 44% o'r achosion dan glo ac mewn 54% o'r rhai cymunedol.


**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Canlyniadau: 57%**

**SYLWADAU ar Ganlyniadau ar y cyfan:**

Ni phenodwyd rheolwr perfformiad tan fis Gorffennaf 2009 a, hyd yma, roedd wedi bod yn canolbwyntio ar gynhyrchu adroddiadau yn erbyn targedau perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd y Gwasanaeth yn cydnabod bod angen adrodd ar ganlyniadau i oleuo ei arferion yn y dyfodol a gwneud y gwelliannau angenrheidiol.

Roedd copïo ac ysgrifennu dros yr asesiad cychwynnol pan oedd adolygiad yn cael ei wneud yn golygu ei bod yn anodd gweld tystiolaeth o newid mewn rhai achosion. Roedd diffyg adolygu ar ddiwedd gorchymyn yn golygu ei bod yn anodd gweld pa gynlluniau oedd y Gwasanaeth wedi eu cyflwyno i ddatblygu neu gynnal canlyniadau cadarnhaol.

## Atodiad 1: Crynodeb



## Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol

### Ardal

Roedd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru.

Roedd gan yr ardal boblogaeth o 128,476 fel a fesurwyd gan Gyfrifiad 2001, ac roedd 10.4% ohoni rhwng 10 a 17 oed. Roedd hyn fymryn yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru, sef 10.6%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 10.4%.

Roedd poblogaeth Wrecsam yn wyn Brydeinig yn bennaf (98.9%). Roedd y boblogaeth o bobl ddu a lleiafrifol ethnig (1.1%) yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 2.1%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr yw 8.7%.

Roedd nifer y troseddau a ryportiwyd lle derbyniodd blant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed benderfyniad cyn-llys a phenderfyniad llys yn 2008/2009, sef 59 am bob 1,000, yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 46.

### Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd ffiniau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid o fewn yr un ffiniau ag ardal heddlu Gogledd Cymru ac ardal Ymddiriedolaeth Prawf Cymru (o Ebrill 2010 ymlaen).

Bwrdd Iechyd Gogledd Cymru oedd y corff iechyd ar gyfer yr ardal.

Roedd y Gwasanaeth wedi'i leoli yn yr Adran Atal a Chynhwysiant yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Wrecsam. Roedd yn cael ei reoli gan Brif Swyddog yr Adran Atal a Chynhwysiant.

Roedd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi'i gadeirio gan Brif Uwcharolygydd yr Uned Reoli Bwrdeistref Dwyreiniol yn Heddlu Gogledd Cymru.

Roedd pencadlys y Gwasanaeth yn nhref Wrecsam ei hun yng Ngogledd Cymru. Roedd ochr weithredol y Gwasanaeth hefyd wedi'i leoli yn Wrecsam. Roedd y rhaglen ISSP yn cael ei darparu gan gonsortiwm gyda Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Sir y Fflint.

### Data Perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd crynodeb o ddangosyddion cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar adeg yr arolygiad am y cyfnod rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009.


Roedd perfformiad Wrecsam ar sicrhau bod plant a phobl ifanc, a oedd yn hysbys i'r Gwasanaeth, mewn addysg, hyfforddiant neu waith, yn 71.7%. Roedd hyn yn ddirywiad ar y flwyddyn cynt, ond yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 69.0%.

Eu perfformiad ar sicrhau llety addas erbyn diwedd y ddedfryd oedd 92.1%. Roedd hyn yn welliant ar y flwyddyn cynt, ond yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 96.1%.


Y "gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis" oedd 62%, sy'n well na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 74% (gweler y Rhestr Termau).

## Atodiad 3a: Siartiau o ddata’r arolygiad


**Sampl Achosion: Math o ddedfryd**





**Sampl Achosion: Risg o Niwed**





**Sampl Achosion: Oed ar ddechrau’r ddedfryd**




**Sampl Achosion: Tarddiad ethnig**




**Sampl Achosion: Rhyw**



## Atodiad 3b: Data'r arolygiad

Cafodd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ei gyflawni ym mis Ebrill 2010.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- archwilio arferion mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall
- tystiolaeth ymlaen llaw
- ymatebion i holiadur gan blant a phobl ifanc, a dioddefwyr

Rydym hefyd wedi gweld data ar berfformiad ac asesiadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng nghyswllt y Gwasanaeth hwn.

## Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn:

**http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*2nd Floor, Ashley House*
*2 Monck Street*
*London, SW1P 2BQ*

Mae siartiau data yn yr adroddiad hwn ar gael yn electronig drwy wneud cais.

## Atodiad 5: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Gorchymyn Ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| ASSET | Offeryn asesu systematig sy'n seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd y person ifanc, yr amgylchiadau personol a'r agweddau a'r credoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddu. |
| CAF | Y Common Assessment Framework neu'r Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu berson ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Mae'n cael ei wneud gan weithiwr allweddol yr achos, gyda phawb arall sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw hefyd yn cyfrannu. |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health Services neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf. |
| Careworks | Un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd YOIS+. |
| CRB | Criminal Records Bureau neu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. |
| DTO | Detention and Training Order neu'r Gorchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi: dedfryd dan glo i bobl ifanc. |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella eu rhagolygon gwaith. |
| FTE | Full-time equivalent neu Gyfwerth ag Amser Llawn. |
| HM / EM | Ei Mawrhydi. |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai EM. |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf EM |
| Ymyriadau; ymyriadau *adeiladol* a *chyfyngu* | Gwaith gydag unigolyn a ddyfeisiwyd i newid eu hymddygiad troseddu a / neu i helpu i warchod y cyhoedd.<br>Ymyriad *adeiladol* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.<br>Ymyriad *cyfyngu* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau *Risg* unigolyn o achosi *Niwed i Eraill*. Er enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai *ymyriad adeiladol* gael ei roi iddynt drwy raglen troseddwyr rhyw achrededig; gallai *ymyriad cyfyngu* (i leihau ei *Risg o Niwed*) gael ei roi iddynt i fonitro, yn gyson a thrylwyr, eu llety, eu cyflogaeth ac unrhyw le y maent yn mynd iddo'n aml, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos.<br>Dalier sylw: Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig. |
| ISSP | Intensive Supervision and Surveillance Programme neu'r Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys: mae'r ymyriad hwn ynghlwm wrth rai gorchmynion a thrwyddedau ac i ddechrau mae'n golygu o leiaf 25 awr o gyswllt â'r rhaglen, gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. |
| ToA | Tebygolrwydd o Aildroseddu. Gweler hefyd Ymyriadau *adeiladol.* |
| LSC | Learning and Skills Council neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau. |
| LSCB | Local Safeguarding Children Board neu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant: sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgîl Deddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau bod y gwaith aml-asiantaeth o ddiogelu a hybu lles plant yn yr ardal honno'n cael ei wneud yn effeithiol. |
| MAPPA / TACAA | Multi-Agency Public Protection Arrangements neu'r Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth; lle mae'r gwasanaethau prawf, heddlu, carchardai ac eraill yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno *Risg o Niwed* uwch i eraill. |
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills neu'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn am hynny) |
| PCT | Primary Care Trust neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol. |
| PPO | Prolific and other Priority Offender neu Droseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth: troseddwyr dynodedig, boed yn oedolyn neu'n berson ifanc, sy'n derbyn sylw ychwanegol gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol. |
| Cyn-CAF | Yn syml, 'Cais am Wasanaeth' yw hwn mewn sefyllfa lle nad oes efallai angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, e.e. Iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. |
| PSR | Pre-sentence report neu Adroddiad Cyn-Dedfrydu: ar gyfer y llys. |
| 'Y gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis' | Mesur a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n nodi faint o droseddau pellach a gofnodir i fod wedi cael eu cyflawni dros gyfnod o naw mis gan unigolion sy'n cael eu goruchwylio ar y pryd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol, a gall fod yn fwy neu'n llai na 100%.<br>'felly byddai 110% yn golygu bod union 110 o droseddau pellach wedi eu cyfrif i fod wedi cael eu cyflawni 'am bob 100 o unigolion dan oruchwyliaeth' dros y cyfnod hwnnw. Y gyfradd gyfartalog genedlaethol ar gyfer Cymru ar ddechrau 2009 oedd 85%. |
| RMP | Risk management plan neu Gynllun Rheoli Risg: cynllun i leihau *Risg* yr unigolyn o achosi *Niwed*. |
| *RoN* | *Risg o Niwed i eraill.* Gweler hefyd Ymyriadau *cyfyngu*. |
| *'Gwaith RoN neu 'Gwaith Risg o Niwed'* | Dyma'r term a ddefnyddir fel arfer gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith a wneir i warchod y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio *ymyriadau cyfyngu*, er mwyn lleihau unrhyw gyfle sydd gan yr unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi *Risg o Niwed i eraill*. |
| RoND | Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn ASSET. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf EM beidio â defnyddio'r term hwn oherwydd nid yw'n helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng *pa mor debygol* yw rhywbeth o ddigwydd ac *effaith / difrifoldeb* y digwyddiad. Mae'r term *Risg o Niwed Difrifol* yn ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod *Risg o Niwed* yn golygu y gellir rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny lle mae ymddygiad niweidiol sy'n cael llai o *effaith / sy'n llai difrifol* yn *debygol*. |
| Diogelu | Gallu dangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau'r risg bod plentyn neu berson ifanc yn cael niwed. |
| SIFA | Screening Interview for Adolescents neu Gyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr arbenigol. |
| SQIFA | Screening Questionnaire Interview for Adolescents neu Gyfweliad Holiadur Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc. |
| VMP | Vulnerability management plan neu Gynllun Rheoli Agored i Niwed: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn sy'n cael ei oruchwylio. |
| YJB | Youth Justice Board neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. |
| YOI | Young Offenders Institution neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc sydd wedi eu carcharu ar remand neu wedi eu dedfrydu i garchar. |
| YOIS+ | Youth Offending Information System neu'r System Gwybodaeth Troseddau Ieuenctid: Un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd Careworks. |
| YOS/T | Gwasanaeth / Tîm Troseddwyr Ifanc. |

© Hawlfraint y Goron

Arolygiaeth Prawf EM
6th Floor Trafford House
Chester Road
Stretford
Manchester
M32 0RS
Ffôn - 0161 869 1300

Mae fformatau eraill ar gael drwy wneud cais.

ISBN 978-1-84099-354-7